**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ Our ref: MA (P) CS 2347 17

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

17th Gorffennaf 2017

Annwyl John

Yn ystod fy ymddangosiad gerbron y pwyllgor ar 21 Gorffennaf, cynigiais ddarparu nodyn ysgrifenedig mewn ymateb i rai o gwestiynau'r pwyllgor. Hyderaf y bydd y nodyn isod yn esbonio'r materion penodol.

**Manylion y broses ar gyfer cwestiynu cynlluniau llesiant byrddau gwasanaethau cyhoeddus, fel y'u disgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus, wrth baratoi ei gynllun llesiant lleol, geisio cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar sut i gymryd camau i gyflawni'r amcanion lleol sydd wedi'u cynnwys yn ei gynllun. Mae gan y Comisiynydd 14 wythnos i roi'r cyngor hwnnw. Ar ôl derbyn cyngor y Comisiynydd, ond cyn cyhoeddi'r cynllun, mae'n rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ymgynghori ar ei gynllun drafft gyda'r bobl sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf. Mae'r ymgyngoreion gorfodol yn cynnwys y Comisiynydd a Gweinidogion Cymru.

Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan bod rheidrwydd ar bob bwrdd i adolygu ei amcanion lleol neu gynllun llesiant lleol os bydd Gweinidogion Cymru yn eu rhoi cyfarwyddyd iddo wneud hynny a gall adolygu ei amcanion neu ddiwygio ei gynllun yn dilyn adolygiad o'r fath. Wrth roi cyfarwyddyd, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n esbonio eu rhesymau dros wneud hynny.

Fodd bynnag, ffocws byrddau gwasanaethau cyhoeddus a'u cynlluniau llesiant lleol yw atebolrwydd lleol ac er mwyn sicrhau bod atebolrwydd democrataidd ar waith mae gofyniad i bwyllgor craffu dynodedig llywodraeth leol yr awdurdod lleol perthnasol graffu ar waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a'i gynllun llesiant lleol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Nodyn o'r trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, byrddau cyflawni lleol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar y trefniadau pontio**

Mae fy swyddogion wedi cwrdd yn rheolaidd â'r holl Gyrff Cyflawni Arweiniol i drafod y materion pontio. Cynhaliwyd y gyfres gyntaf o gyfarfodydd yn dilyn fy natganiad llafar ac mae'r tîm wedi parhau i gwrdd ar sail ddwyochrog i ddarparu cymorth pwrpasol. Hefyd, mae Rhwydwaith y Corff Cyflawni Arweiniol yn cwrdd bob deufis mewn cyfarfodydd yn ne a gogledd Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfodydd Rhwydwaith hyn ym misoedd Chwefror/Mawrth, Ebrill/Mai a Mehefin/Gorffennaf yn ne a gogledd Cymru, yn y drefn honno.

**Darparu copi o'r Canllaw Pontio a Strategaeth a roddwyd i awdurdodau lleol**

Mae canllaw Pontio a Strategaeth Cymunedau yn Gyntaf ar gael drwy'r ddolen isod: http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/170622-transition-guidance-cy.pdf

**Nodyn o'r gwerthusiad o raglenni Cymunedau am Waith ac Esgyn, gan gynnwys unrhyw ddata a meini prawf asesu sydd ar gael**

Mae rhagor o fanylion am y cam gweithredu uchod wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

**Nodyn sy'n darparu rhagor o fanylion am y llwybr cyflogadwyedd yn dilyn ymgysylltiad ar y rhaglenni Esgyn a Cymunedau am Waith**

Mae rhagor o fanylion am y cam gweithredu uchod wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

**Copi o'r canllaw ar y rhaglen asedau cyfalaf**

Byddaf yn ailagor y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol cyn diwedd Gorffennaf. Mae'r rhaglen wedi'i diweddaru i ystyried y £4 miliwn ychwanegol y flwyddyn a gyhoeddais ym mis Chwefror. Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau gan ardaloedd blaenorol Cymunedau yn Gyntaf. Rwy'n awyddus i gyfleusterau cymunedol yn yr ardaloedd hyn gael mynediad i grantiau cyfalaf er mwyn gwella'r hyn y gallant ei gynnig i bobl yn y cymunedau hyn a hefyd i wella eu cynaliadwyedd hirdymor eu hunain fel rhan o etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf.

Bydd rhai newidiadau amlwg yn cael eu gwneud i'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol, gan gynnwys cyflwyno grantiau bach o hyd at £25,000 a allai, er enghraifft, ariannu cegin neu doiledau ar wahân er mwyn hwyluso'r defnydd o adeilad fel lleoliad gofal plant. Bydd grantiau mwy yn parhau i fod ar gael hyd at uchafswm o £250,000. Bydd yn rhaid i bob ymgeisydd ddarparu tystiolaeth bod y gymuned leol wedi bod yn ymgysylltu yn y broses o ddatblygu'r prosiect. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y gymuned yn cael yr hyn y mae arnynt ei eisiau a'i angen.

Bydd grwpiau cymunedol y tu allan i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i allu gwneud cais i'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Bydd angen iddynt ddangos y byddai eu cynigion yn gwella cyfleoedd i'r bobl sy'n byw yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Bydd angen iddynt hefyd nodi partneriaid cyflawni allweddol, megis yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn eu helpu i ddangos pwysigrwydd strategol eu cais. Cyhoeddir canllawiau cyn bo hir.

Fe wnaethoch ofyn hefyd am ragor o wybodaeth am y canlynol:

**Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu asesu effeithiolrwydd y newid i'r dull gweithredu strategol ar dlodi ac a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cefnogi astudiaeth hydredol ar dlodi yng Nghymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynnal gwaith ymchwil cadarn i werthuso effeithiolrwydd rhaglenni sy'n ceisio lleihau tlodi ac mae nifer o astudiaethau o'r fath yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Ymhlith yr enghreifftiau mae Gwerthusiad o'r rhaglen Esgyn, Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, Gwerthusiad o Cymunedau am Waith, Gwerthusiad o'r cynllun Rhieni a Phlant a Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant.

O ran y data cenedlaethol, mae angen Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru, fel y nodir yn adran (10) (1) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn rhoi fframwaith ar waith i fesur effaith y Ddeddf, sy'n cynnwys dangosyddion tlodi allweddol sy'n edrych ar yr economi, iechyd, addysg a sgiliau. Mae hyn yn cyd-fynd â ffocws 'Ffyniant i Bawb', a fydd yn cael ei amlinellu yn Symud Cymru Ymlaen. Rydym hefyd yn cynnal ac yn cyhoeddi dadansoddiad o gronfeydd data trawsadrannol (gan gynnwys Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol o setiau data Cymru) er mwyn cael dealltwriaeth well o dlodi a bod heb waith yng Nghymru. Mae ein Strategaeth Tlodi Plant 2015 yn cynnwys 5 amcan allweddol ar gyfer trechu tlodi plant a gwella canlyniadau i deuluoedd incwm isel yng Nghymru ac ar 13 Rhagfyr cyhoeddais ein hadroddiad statudol ar gynnydd.

Rydym eisoes yn cefnogi astudiaeth hydredol a gynhelir gan Understanding Society UK, y gellir ei defnyddio i ganfod mesurau tlodi a'i barhad dros amser. Rydym hefyd yn ariannu hwb i Astudiaeth Cohort y Mileniwm, i sicrhau data hydredol cadarn ar gyfer Cymru am blant a aned yn y flwyddyn 2000 ac mae'r data hyn yn cael eu defnyddio yn sail i adroddiadau am dlodi a llesiant plant a'r ffactorau sy'n gysylltiedig â lefelau cyrhaeddiad amrywiol plant a phobl ifanc Cymru; mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar hyn yn y cyhoeddiad: Monitor Llesiant Plant a Phobl Ifanc Cymru, 2008, 2011 a 2015). Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd raglen cysylltu data er mwyn edrych ar ystod o ganlyniadau sy'n cysylltu data arolygon gweinyddol a hydredol, ynglŷn â chyrchfannau addysg, tlodi tanwydd a Dechrau'n Deg. Fel rhan o'r rhaglen hon, mae prosiect yn cael ei gynnal i ymchwilio i ymarferoldeb creu mesur amddifadedd unigol yng Nghymru gan ddefnyddio'r data gweinyddol sydd, yn ôl eu natur, yn hydredol iawn, ac a fydd yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o amddifadedd sy'n cael ei chasglu yn awr gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd perthynol yng Nghymru, a mynd i'r afael â rhai o'i gyfyngiadau. Ein bwriad yw defnyddio pob un o'r rhain, a ffynonellau eraill i ymchwilio i dueddiadau tlodi; a phan fydd bylchau yn y dystiolaeth sydd ar gael, byddwn yn ymchwilio i'r opsiynau o lenwi'r rhain pan fydd yn bosibl inni wneud hynny.

**Mae'r data a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd rhaglenni cyflogadwyedd wedi'u dadgyfuno yn ôl oedran a / neu ryw, os ydynt ar gael.**

Gallaf ddarparu'r data canlynol yn unol â'r cais uchod, a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd y Rhaglenni.

**Rhaglen ReAct 3**

Gwrywod 66%
Benywod 34%

Cyfranogwyr yn ôl oedran (% cyfanswm y cyfranogwyr):

18-24 3%
25-49 62%
50+ 35%

**Twf Swyddi Cymru 2 (o Fedi 2015)**
Ers Ebrill 2015
Gwrywod - 54%
Benywod – 46%

Cyfranogwyr yn ôl oedran
16-17 – 4%
18-24 – 96%

**Y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd (o Fedi 2016)**
Gwrywod - 61%
Benywod – 39%

Cyfranogwyr yn ôl oedran
16-17 – 1.4%
18-24 –24.4%
25-49 – 53.7%
50+ - 20.3%

Yr eiddoch yn gywir

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

**Nodyn ar y gwerthusiad o'r rhaglenni Cymunedau am Waith ac Esgyn, gan gynnwys unrhyw ddata sydd ar gael a meini prawf asesu**

## Esgyn

Lansiwyd y Rhaglen yn ffurfiol ym mis Mawrth 2014 ac ar 31 Mai 2017 roedd wedi darparu 4,583 o gyfleoedd, gan gynnwys cynorthwyo 939 o bobl o aelwydydd heb waith i gael swyddi, gan roi'r rhaglen ar y trywydd cywir i gyrraedd ei tharged cyffredinol erbyn diwedd y flwyddyn.

### Gwerthusiad o Esgyn

Mae'r Rhaglen Esgyn yn cael ei gwerthuso'n annibynnol gan Wavehill Ltd, a chyhoeddwyd adroddiad yr ail gam ar 20 Rhagfyr 2016. Mae'r adroddiad yn cynnwys y canfyddiadau canlynol:

- Trechu tlodi yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac o gofio'r dystiolaeth sylweddol sy'n cysylltu diffyg gwaith â thlodi, mae digon o gyfiawnhad ar gyfer ymyrraeth polisi o'r natur hon.

- Dyluniwyd model cyflawni'r Rhaglen i gynnwys cryn hyblygrwydd ac mae hyn wedi ei galluogi i addasu i amgylchiadau lleol a chadw at ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

- Mae cyfranogwyr ar y cyfan yn gadarnhaol ynghylch y cymorth y maent wedi'i gael drwy'r Rhaglen.

- Mae cyfran fawr o'r cyfranogwyr wedi bod yn ddi-waith am gyfnod maith neu heb weithio erioed, gyda dim ond nifer bach wedi cymryd rhan mewn mentrau eraill yn y gorffennol er mwyn eu cynorthwyo i gael gwaith; gan awgrymu bod Esgyn yn effeithiol o ran ymgysylltu â'r rhai sy'n anodd eu cyrraedd.

- O ran y cyfranogwyr sydd wedi cymryd rhan mewn Rhaglenni cymorth blaenorol, mae dros dri chwarter wedi nodi bod yn well ganddynt y dull a fabwysiadwyd drwy Esgyn.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth a chopi o adroddiad Cam 2 ar: http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-lift-programme/?skip=1&lang=cy.

## Cymunedau am Waith

### Cefndir

Mae Cymunedau am Waith yn canolbwyntio ar leihau nifer y bobl 12-24 oed Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) a chynyddu cyflogadwyedd ymysg oedolion economaidd anweithgar ac oedolion sydd wedi bod yn ddi-waith am dymor hir sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.

Mae gan bob tîm sy'n darparu Cymunedau am Waith swyddog Cymorth Brysbennu sy'n cynnal asesiad addasrwydd. Mae'r asesiad addasrwydd yn cynnwys gwiriad cymhwyster ESF cam cyntaf ac asesiad o sgiliau galwedigaethol lefel isel i bennu lefel anghenion yr unigolyn a pha raglen fyddai'n gweddu orau i'r cyfranogwr e.e. Cymunedau am Waith neu Esgyn. Mae'r Swyddog Cymorth Brysbennu hefyd yn darparu gwaith rheoli achosion parhaus ar draws Cymunedau am Waith a rhwydweithiau partneriaethau lleol, gan sicrhau bod yr unigolyn yn cael y lefel briodol o wasanaeth a chymorth sydd ar gael. Byddai'r asesiad addasrwydd yn nodi cyfranogwr fel:

| | |
|---|---|
| yn barod am waith ymhen 0-6 mis: | angen lefel isel i ganolig o gymorth |
| yn barod am waith ymhen 6-12 mis: | angen lefel ganolig i uchel o gymorth |
| yn barod am waith ymhen 12+: | angen lefel uchel o gymorth. |

Ar 31 Mai 2017, roedd Cymunedau am Waith wedi darparu cymorth cyflogaeth i 9,367 o bobl ac wedi helpu 2,272 o bobl i gael gwaith ledled Cymru. Disgwylir i'r gyfradd gyflawni gynyddu dros y blynyddoedd nesaf er mwyn cyrraedd y targed o gael 10,000 o bobl i mewn i waith erbyn 2020.

**Casglu Data**

Mae Cymunedau am Waith yn cadw at ganllawiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gofnodi ac adrodd ar ganlyniadau. Mae angen tystiolaeth gadarn ar gyfer pob canlyniad cyn y gellid hawlio'r canlyniad. Mae hyn yn sicrhau trefniant monitro cryf, a gaiff ei fonitro'n barhaus gan Reolwyr Cyfrif Cymunedau am Waith.

Ar ddiwedd 31 Mawrth 2017, mae'r canlyniadau a gofnodwyd ac a adroddwyd arnynt i swyddfa cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer Cymunedau am Waith fel a ganlyn:

| Canlyniad | Canran y cyfranogwyr Cymunedau am Waith |
|---|---|
| Sgiliau Isel neu Dim Sgiliau | 54% |
| Cyfrifoldebau Gofal neu Ofal plant | 40% |
| Dros 54 oed | 11% |
| O Aelwyd Ddi-waith | 69% |
| O grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 5% |
| Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar allu rhywun i weithio | 26% |
| Anabledd | 13% |
| Gwryw | 46% |
| Benyw | 54% |

**Gwerthusiad o Raglen Cymunedau am Waith**

Er mwyn cyflwyno tystiolaeth o fanteision y rhaglen Cymunedau am Waith, comisiynwyd Old Bell/Dateb i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Cymunedau am Waith a fydd yn ystyried y manteision tymor hwy ar gyfer y cyfranogwyr. Dylai'r gwerthusiad ddarparu tystiolaeth ynghylch a yw cyfranogwyr wedi ymuno â

chyflogaeth gynaliadwy ac a yw'r rhaglen wedi helpu i wella safle'r cyfranogwr yn y farchnad lafur.

Tri nod y gwerthusiad yw:

- taflu goleuni ar y theori newid ar gyfer Cymunedau am Waith a datblygu'r model rhesymeg sy'n tanseilio'r rhaglen,

- ystyried y gwahaniaethau rhwng gweithrediadau Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 Cymunedau am Waith i asesu sut mae'r rhaglen wedi'i sefydlu a sut y caiff ei gweithredu

- darparu awgrym o effeithiolrwydd cyffredinol y rhaglen (gan gynnwys unrhyw wahaniaethau rhwng y grwpiau targed).

Cyhoeddwyd yr adroddiad Theori Newid drafft, sef cam cyntaf y gwerthusiad, ym mis Ebrill ac mae'n cadarnhau bod y rhaglen wedi'i chynllunio'n dda ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Gallwch ddod o hyd i gopi ar:
http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-communities-Work/?lang=cy

Bydd adroddiad yr ail gam yn defnyddio'r theori newid i asesu sut y cafodd y rhaglen Cymunedau am Waith ei sefydlu a'i gweithredu ledled Cymru.
Roedd drafftio ail gam yr adroddiad yn cynnwys:

- cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru, rheolwyr gweithrediadau a Rheolwyr Cyflawni'r Adran Gwaith a Phensiynau, staff y Corff Cyflawni Arweiniol sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol dros Cymunedau am Waith;

- cynnal pecyn o waith maes ansoddol yn yr 19 o ardaloedd clwstwr dethol sy'n rhan o Cymunedau yn Gyntaf, a oedd yn cynnwys cyfweliadau â rheolwyr clwstwr Cymunedau yn Gyntaf; cyfweliadau grŵp neu unigol â gweithwyr brysbennu, cynghorwyr, mentoriaid cyflogaeth oedolion ac ieuenctid ar gyfer Cymunedau am Waith; trafodaethau ffôn â darparwr hyfforddiant, asiantaeth gyfeirio a/neu gorff trydydd sector, a chyflogwr sydd wedi ymgysylltu â Chymunedau am Waith; cyfweliadau un i un â chyfranogwyr y rhaglen ac adolygu sampl o 10 o bortffolios cyfranogwyr

- adolygu adroddiadau cynnydd

Caiff adroddiad yr ail gam ei gyhoeddi yn ystod Haf 2017.

**<u>Camau gweithredu dilynol ar ôl ymddangos gerbron y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 21 Mehefin 2017</u>**

## Llwybr Cyflogaeth

Mae'r Rhaglenni Esgyn a Chymunedau am Waith yn dilyn dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gefnogi cleientiaid sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth. Yn dilyn ymgysylltu â'r naill raglen neu'r llall, bydd y mentoriaid a'r cynghorwyr yn cwrdd â chyfranogwyr i ddeall y rhwystrau i gyflogaeth a'r camau gweithredu y cytunir arnynt i ymdrin â'r rhain. Mae cynllun pob cyfranogwr yn cyd-fynd â'u hanghenion a'u hamgylchiadau unigol.

Ar ôl cael eu cyfeirio neu ar ôl cyswllt, caiff apwyntiad ei drefnu â swyddog brysbennu, cynghorydd neu fentor a fydd yn cynnal asesiad brysbennu cyswllt cyntaf. Bydd brysbennu yn cynnwys gwiriad cymhwysedd lefel gyntaf ac asesiad addasrwydd ysgafn i bennu lefel yr angen ac felly pa wasanaeth cynghori Cymunedau am Waith sydd fwyaf priodol. Gallai canlyniadau'r asesiad addasrwydd nodi bod angen cymorth lefel isel, canolig neu uchel ar y person neu nad yw'n gymwys i gael cyngor.

Pan nodir bod angen cymorth lefel uchel, caiff y cyfranogwr ei gyfeirio at fentor Cymunedau am Waith a fydd yn cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer y cyfranogwr.

Pan fydd angen lefel ganolig / gymedrol o gymorth, caiff y cyfranogwr ei gyfeirio at Gynghorydd Cyflogaeth Arbenigol yn dibynnu ar y lefel a'r math o gymorth a nodir. Caiff y rôl hon ei rhannu'n ddwy agwedd arbenigol bellach - cynghorwyr cyflogaeth i rieni a chynghorwyr cyflogaeth cymunedol. Bydd y ddau yn cytuno ar gynlluniau gweithredu gyda'r cyfranogwyr, gan fynd ati i gytuno ar gynlluniau gweithredu.

Er y bydd Cymunedau am Waith yn ceisio ymgysylltu â'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, gallwn ragweld y bydd nifer bach o gwsmeriaid yn gallu cael eu cefnogi gyda swm bach iawn o gymorth cynghori. Bydd y cyfranogwyr hyn yn gallu cael eu hunanreoli neu eu cyfeirio'n hawdd at wasanaethau priodol a bydd angen lefel isel o gymorth arnynt, drwy gynlluniau gweithredu y cytunir arnynt.

I ategu'r gwasanaeth cynghori, bydd yn rhaid i bob cyfranogwr gael mynediad i ddarpariaeth hyfforddiant yn ogystal â chronfa rwystrau a fydd yn darparu cymorth ariannol i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth.